**CYFLE CYLLIDO LLYWODRAETH CYMRU - Y GRONFA GYNGHORI SENGL**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | A oes modd i Lywodraeth Cymru gadarnhau y bydd pob eglurhad a phob ateb a ddarperir fel rhan o'r broses o ymgeisio ar gyfer grant y Gronfa Gynghori Sengl yn cael ei rannu â'r holl gynigwyr, i gynorthwyo pob cynigydd i ddatblygu eu hymatebion a sicrhau proses dryloyw? | Gall Llywodraeth Cymru gadarnhau y bydd pob eglurhad a phob ateb a ddarperir fel rhan o'r broses o ymgeisio ar gyfer grant y Gronfa Gynghori Sengl ar gael i'r holl gynigwyr, i gynorthwyo cynigwyr i ddatblygu eu hymatebion a sicrhau proses deg. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gyhoeddi'r cwestiynau a'r atebion ar wefan Llywodraeth Cymru yn rheolaidd. |
| 2 | A oes modd i Lywodraeth Cymru gadarnhau a yw TAW yn gymwys i'r grant hwn? | Na, ni fydd TAW yn gymwys i'r cyllid grant. |
| 3 | A oes modd i Lywodraeth Cymru gadarnhau os oes rhai o safonau'r Gymraeg yn gymwys wrth gyflawni'r grant hwn, a'u darparu i bob cynigydd cyn gynted â phosibl, er mwyn medru cynllunio gwasanaethau effeithiol? | Gweler adran 6, cwestiwn 4 yn y nodiadau cyfarwyddyd am fanylion pellach. |
| 4 | Os bydd nifer o sefydliadau'n uno i gydweithio â'i gilydd, efallai y bydd goblygiadau TUPE. Allwch chi gynghori os gwelwch yn dda? | Fel y nodir yn y canllawiau, mae cynigiwr yn gyfrifol am gael cyngor, ar ei draul ei hun, ynghylch unrhyw hapddigwyddiadau yn y dyfodol; neu unrhyw amgylchiadau eraill; neu faterion a allai effeithio mewn unrhyw ffordd ar ei gais am arian grant. |
| 5 | A oes modd i chi gynghori ym mha sector y dylai ymgeiswyr cymwys fod i wneud cais am y cynllun hwn?<br><br>A yw'n agored i gyrff cyhoeddus, fel awdurdodau lleol a sefydliadau addysg yn unig? Neu a yw'n agored i fusnesau a/neu elusennau, ac ati? | Ceir gwybodaeth ynghylch pwy all wneud cais ym mhwynt 44 – 43 yn y ddogfen canllawiau grant. |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| 6 | Mae paragraff 53 o'r canllawiau yn dweud:<br><br>"Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r grant hwn ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau cynghori rheng flaen. O fewn cynnig ariannu cydweithredol, mae'n **rhaid** i bartner nad yw'n rhoi cyngor, y mae ei rôl yn cynnwys cydgysylltu a/neu reoli'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau a ariennir yn lleol, yn rhanbarthol neu i Gymru gyfan, yn sefydliad Nid er Elw ac a all ddarparu tystiolaeth o'r canlynol:<br>i. ei hanes sefydledig a llwyddiannus o gydgysylltu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor a;<br>ii. bod ganddo ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r Sector Cyngor ar Les Cymdeithasol yng Nghymru.<br><br>Rydym wedi sefydlu consortiwm nad oes ganddo, fel endid, y profiad a amlinellir yn 53.i eto. Fodd bynnag, mae'r holl aelod-sefydliadau yn ddarparwyr cyngor dielw yng Nghymru ac mae ganddynt y profiad angenrheidiol. O ystyried hyn, a fyddai'r consortiwm yn gymwys i wneud cais neu a fyddai angen i ni wneud cais o hyd drwy asiantaeth arweiniol? | Cyfeiriwch at baragraff 47 yn y canllawiau sy'n cadarnhau bod rhaid i gais cydweithredol am gyllid nodi darparwr arweiniol sydd â'r profiad a'r ddealltwriaeth berthnasol. |
| | **Wedi'i ddiweddaru ar 09/08/2024** | |
| 7 | Rydym yn edrych ymlaen at gyflwyno cais o dan Gronfa sengl 2025-2028, hoffem gael eglurhad o lefel y safon ansawdd (IAQF) Math 1 -5 Cymru erbyn mis Hydref 2025, os ydym yn llwyddiannus? | Os ydych yn ceisio cyllid i ddarparu cyngor cyffredinol a/neu arbenigol, bydd yn rhaid ichi feddu ar safon ansawdd ar y lefel briodol ar gyfer y gwasanaethau yr ydych yn bwriadu eu darparu erbyn 1/10/2025. Gwelwch baragraffau 49 i 53 yn y canllawiau. |

| | | |
|---|---|---|
| 8 | O ran y cyfle cyllido uchod, a allech chi amlinellu beth yw'r chwe rhanbarth drwy gyfeirio at naill ai awdurdodau lleol neu fyrddau iechyd lleol. | Gallwch weld yr Awdurdodau Lleol ym mhob rhanbarth ar dudalen 1 o'r ffurflen gais. |
| | **Diweddarwyd ar 16/08/2024** | |
| 9 | Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw sefydliad sydd eisiau cydweithio â sefydliad bychan, ac a ydych yn cynnig unrhyw gefnogaeth i gwblhau'r ffurflen gais? | I nodi darparwyr yn eich rhanbarth y gallwch gysylltu â nhw i drafod a ydynt yn dymuno cydweithio, chwiliwch ar dewis.cymru neu cysylltwch â'n Cyngor Gwirfoddol Cymunedol lleol.<br><br>Nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu cynnig cymorth i Gynigydd i gwblhau eu ffurflen gais. Efallai y byddwch yn gallu derbyn cefnogaeth ac arweiniad gan eich Cyngor Gwirfoddol Cymunedol lleol neu Hwb Gwybodaeth Gwasanaeth Cymorth y Trydydd Sector. |
| 10 | Gan fod gennym ddiddordeb mewn cefnogi nifer o gyfleoedd o fewn y gronfa hon o bosibl - a oes unrhyw ffordd y gallwch rannu'r enillwyr grant blaenorol, fel ein bod yn cael syniad o'r rhai y dylem fod yn cysylltu â hwy? | Cyngor ar Bopeth Cymru yw prif sefydliad chwe chonsortiwm rhanbarthol a chonsortiwm cenedlaethol sydd ar hyn o bryd yn darparu gwasanaethau'r Gronfa Cynghori Sengl. |
| | **Diweddarwyd ar 19/08/2024** | |
| 11 | Roeddem yn meddwl tybed a fyddem yn gallu cyflwyno cynnig ar gyfer y gwasanaeth hwn ledled Cymru, neu a oes angen i ni gydweithio ag eraill i ddarparu llinell gyngor gyda chwmpas ehangach? | Gall ceisiadau am y cyllid gael eu cyflwyno gan un darparwr â sicrwydd ansawdd neu drwy gydweithrediad nifer o ddarparwyr. Bydd angen i'r cais ddangos sut y bydd yn diwallu holl ystod y cyngor ar les cymdeithasol sydd ei angen ar gymunedau amrywiol Cymru. Ceir rhagor o wybodaeth ar dudalen 2 a thudalennau 7 – 8 yn y canllawiau. |
| | **Diweddarwyd ar 22/08/2024** | |
| 12 | Yn realistig, ar hyn o bryd ni fyddem yn ceisio ehangu ein darpariaeth gwasanaeth wyneb yn wyneb y tu hwnt i'r tri awdurdod lleol yma gan y gallai hynny beryglu ansawdd y gwasanaeth yr ydym eisoes yn ei gynnig. Gallwn gynnig cyngor o bell sy'n cwmpasu ystod ehangach o | Gofynnir i gynigwyr esbonio sut y bydd eu model darparu gwasanaethau arfaethedig yn cydgysylltu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn yr **holl** ardaloedd awdurdod lleol unigol yn effeithiol ac yn sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu yn unol ag anghenion cymunedau lleol ledled y rhanbarth. Gweler baragraffau 19 – 21 yn y ddogfen ganllaw am ragor o wybodaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| | awdurdodau lleol (ac rydym yn gwneud hynny'n rheolaidd) ond rydym hefyd yn ymwybodol nad ydym am ddyblygu gwasanaethau a gynigir gan ddarparwyr eraill. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i ehangu ein capasiti a'n gallu i ddarparu gwasanaethau o bell heb unrhyw ffiniau rhanbarthol penodol. Yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd gennyf, a fyddem yn cael ein hatal rhag cyllid Cyfle 1? | Gall ceisiadau am yr arian gael eu cyflwyno gan ddarparwr unigol neu nifer o ddarparwyr ar y cyd, er y rhagwelir y bydd darparwyr sy'n cyflwyno ceisiadau ar y cyd yn gallu dangos yn well sut y byddant yn diwallu'r ystod lawn o anghenion cyngor cymunedau amrywiol Cymru. Gweler baragraffau 44 i 53 am ragor o wybodaeth am bwy all wneud cais.<br><br>Gweler hefyd baragraff 15 o'r ddogfen ganllaw, sy'n nodi y bydd cynigwyr yn gallu argymell dulliau o ddarparu gwasanaethau rhanbarthol drwy sianelau eraill, megis dros y ffôn neu ar-lein, pan fydd y rhain yn well ar gyfer diwallu anghenion penodol pobl sy'n ei chael hi'n anodd cael gafael ar wasanaethau wyneb yn wyneb, neu y byddai'n well ganddynt beidio gwneud hynny. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol i ardaloedd gwledig mewn rhanbarth, lle y gellir disgwyl y bydd cyfran uwch o wasanaethau yn cael eu darparu o bell, er mwyn galluogi mynediad eang a chadw cost cyflenwi yn fforddiadwy. |
| 13 | Pe byddem yn cyflwyno tendr o dan Gyfle 3, a fyddai modd cyflwyno tendrau ar wahân ar gyfer pob un o'r rhanbarthau rydym yn gweithredu ynddynt? | Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod un grant ar gael ym mhob un o'r chwe rhanbarth. Nid yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd sefydliad unigol yn derbyn mwy nag un grant a ddyfernir o dan Gyfle 3. Ceir rhagor o wybodaeth ym mharagraffau 32 i 38. |
| 14 | A yw'r Gronfa Gynghori Sengl yn cynnig cyllid i un darparwr yn unig ym mhob rhanbarth dan Gyfle 3? | Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod un grant ar gael ym mhob un o'r chwe rhanbarth. Nid yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd sefydliad unigol yn derbyn mwy nag un grant a ddyfernir o dan Gyfle 3. Ceir rhagor o wybodaeth ym mharagraffau 32 i 38. |
| 15 | Mae adran 37 o'r nodiadau cyfarwyddyd yn nodi'n glir nad yw cyllid Cyfle 3 ar gael i'r rhai sy'n derbyn cyllid Cyfle 1 neu 2; a yw hyn yn golygu nad oes modd cyflwyno cais am gyllid Cyfle 3 ochr yn ochr ag 1 a 2, neu; os yn gymwys, a fyddai modd cyflwyno cais am Gyfle 2 a 3 er enghraifft, a chaniatáu i'r panel sy'n | Hoffai Llywodraeth Cymru i gynigwyr gyflwyno cynigion ynghylch sut y byddent yn darparu Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor Rhanbarthol ar Les Cymdeithasol (cyfle 1) **a/neu** Wasanaeth Cyngor o Bell i Gymru Gyfan (cyfle 2) <u>**neu**</u> Wasanaeth Unigol drwy gyfle 3. Felly, ni all cynigydd gyflwyno ceisiadau am gyfle 2 a 3.<br><br>Os na cheir unrhyw geisiadau mewn perthynas ag unrhyw gyfle penodol sy'n cyflawni nodau ac yn bodloni gofynion y grant yn llawn ac yn ddigonol, ceidw |

| | | |
|---|---|---|
| | gwneud penderfyniadau farnu pob cais yn ôl teilyngdod a phenderfynu pa un i'w ddyfarnu os bydd yn llwyddiannus? | Llywodraeth Cymru yr hawl i gefnogi mwy nag un cais pan fyddai gwneud hynny yn arwain at wasanaethau cyfunol sy'n cyflawni nodau ac yn bodloni gofynion y grant. |
| 16 | A oes unrhyw ganllawiau ar gyfer y symiau o arian i wneud cais amdanynt o fewn yr uchafswm gwerthoedd a restrir? h.y. a oes graddfa symudol ar wahân gan ddibynnu ar faint y sefydliad sy'n gwneud cais? | Gweler y Canllawiau am yr uchafswm grant sydd ar gael fesul cyfle. Disgwylir i gynigwyr gyflwyno cynigion sy'n defnyddio'r holl arian sydd ar gael ar gyfer y cyfle ariannu y maent yn gwneud cynnig amdano, neu'r rhan fwyaf o'r arian hwnnw.<br><br>Nodir y symiau gofynnol y mae'n rhaid eu gwario ar wasanaethau cyngor ar ddyledion i fodloni rhwymedigaethau trethdalwyr yn y ddogfen ganllaw ym mharagraffau 22 a 31. |
| 17 | A oes modd ystyried amcanestyniad rhesymol o faint y gallai'r gwasanaethau ehangu drwy'r Cyllid Cynghori Sengl dros y tair blynedd? Hynny yw, a fyddem yn gallu cyflwyno cynnig uwch ar gyfer blwyddyn tri o'i gymharu â blwyddyn un o dan y dybiaeth resymol y bydd y cyllid hwn yn caniatáu mwy o gapasiti dros y cyfnod? | Oes, gweler cwestiwn 6 yn y ffurflen gais am grant. Disgwylir i gynigwyr hefyd gwblhau'r daenlen ariannol yn Atodiad B, gan nodi'r holl ofynion ariannol disgwyliedig ar gyfer cyfnod y grant. Mae'n bwysig eich bod yn cynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl er mwyn esbonio'n glir sut rydych yn cynnig defnyddio'r arian rydych yn gwneud cais amdano i ddarparu'r gwasanaeth gwybodaeth a chyngor dros gyfnod 3 blynedd y grant. |
| | **Diweddarwyd 29/08/2024** | |
| 18 | A oes angen i'r sefydliad/consortiwm sy'n ymgeisio drwy Gyfle 3 fod wedi cofrestru â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol os yw'n darparu ystod o wasanaethau cynghori gan gynnwys cyngor ar ddyledion? | Bydd angen i ddarparwr a fydd yn chwarae rhan yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyngor ar ddyledion yn uniongyrchol i bobl fod wedi ei reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, neu fod wedi'i eithrio rhag cael ei reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.<br>Os oes unrhyw sefydliad sydd am ddarparu gwasanaethau o'r fath yn uniongyrchol heb Safon Ansawdd ar gyfer cynghori neu awdurdodiad gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar hyn o bryd, rhowch dystiolaeth gadarn o fewn y cais y bydd y gofynion hyn yn cael eu bodloni erbyn dyddiad dechrau'r grant, neu o fewn 6 mis os yn ymgeisio drwy Gyfle 3, neu darparwch gadarnhad eu bod wedi'u heithrio rhag gorfod cael eu rheoleiddio gan yr Awdurdod. |

| | | |
|---|---|---|
| 19 | A oes angen i'r sefydliad/consortiwm sy'n ymgeisio drwy Gyfle 3 fod wedi cofrestru â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol os yw'n darparu ystod o wasanaethau cynghori ond heb gynnwys cyngor ar ddyledion? A yw hyn yn opsiwn i beidio â chynnwys cyngor ar ddyledion o dan Gyfle 3? | Gweler paragraff 33 (i) sy'n nodi - nid oes angen i Gynigiwr fod yn cynnig gwybodaeth a/neu gyngor ym mhob maes lles cymdeithasol nac ar bob lefel, felly mae yna opsiwn i beidio â darparu cyngor ar ddyledion o dan Gyfle 3.<br><br>Bydd angen i ddarparwr sy'n chwarae rhan yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau **cyngor ar ddyledion** yn uniongyrchol i bobl, gael ei reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, neu fod wedi'i eithrio rhag cael ei reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, h.y. awdurdod lleol. |
| 20 | Ar gyfer sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cynghori i grŵp penodol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn mwy nag un rhanbarth - a allant wneud cais am Gyfle 3 am fwy na'r un rhanbarth y maent yn darparu iddo? | Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod un grant ar gael ym mhob un o'r chwe rhanbarth. Nid yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd sefydliad unigol yn derbyn mwy nag un grant a ddyfernir o dan Gyfle 3. Ceir rhagor o wybodaeth ym mharagraffau 32 i 38. |
| 21 | Mae'r wybodaeth yn nodi 'Ni fydd y Gronfa Gynghori Sengl yn cynnig arian craidd i ddarparwyr gwybodaeth a chyngor'. A allwch gadarnhau os oes modd ariannu costau rheoli a gweinyddu prosiectau sy'n ymwneud yn benodol â'r gwasanaeth cynghori - ac os felly, a oes cyfradd % gweinyddu a rheoli gydnabyddedig ar gyfer costau'r prosiect? | Bydd Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo rhesymoldeb unrhyw Daliadau rheoli/Costau canolog y gofynnir amdanynt. Gweler yr adran nodiadau pwysig ar dudalen 20 a 21 yn y canllawiau i gael rhagor o wybodaeth. |
| 22 | A all sefydliad/consortiwm hawlio costau adfer llawn? | Gweler tudalen 22 o'r ddogfen ganllaw - mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gymaint o'r grant hwn â phosibl ganolbwyntio ar ddarpariaeth rheng flaen. Dylid cadw costau sy'n gysylltiedig â chydgysylltu gwahanol wasanaethau ac â chonsortia yn gyffredinol i'r lefel isaf posibl sydd ei hangen i sicrhau prosesau darparu gwasanaethau ac adrodd integredig effeithiol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo rhesymoldeb unrhyw Daliadau rheoli/Costau canolog y gofynnir amdanynt. |

| | | |
|---|---|---|
| 23 | O ran cyfleoedd 1 a 2, a ydynt ond ar gael i wasanaethau a all gynnig gwasanaethau cynghori ym mhob un o'r 5 maes cyngor lles cymdeithasol – 'budd-daliadau lles, dyled, tai, cyflogaeth, a gwahaniaethu (gan gynnwys addysg)'? | Ydyn, ond gall ceisiadau am yr arian gael eu cyflwyno gan ddarparwr unigol sy'n ystyried y gall gyflawni holl amcanion y Gronfa Gynghori Sengl, neu nifer o ddarparwyr ar y cyd. Fodd bynnag, rhagwelir yn gyffredinol y bydd darparwyr sy'n cyflwyno ceisiadau ar y cyd yn gallu dangos yn well sut y byddant yn diwallu'r **ystod lawn o anghenion cyngor** cymunedau amrywiol Cymru. Gweler baragraffau 46 i 55 am ragor o wybodaeth am bwy all wneud cais. |
| 24 | Os mai dim ond cyngor ar un maes lles cymdeithasol y mae gwasanaeth cynghori yn ei ddarparu, a yw hyn yn golygu mai dim ond cyfle 3 sydd ar gael iddynt? | Mae Cyfle 3 ar gael i sefydliad sy'n darparu cyngor mewn un maes lles cymdeithasol, ond mae'r Gronfa Gynghori Sengl yn croesawu ceisiadau gan nifer o ddarparwyr ar y cyd drwy Gyfle 1 a 2, os gallant ddangos sut y byddant yn diwallu'r ystod lawn o anghenion cyngor cymunedau amrywiol Cymru.<br><br>Gweler hefyd yr ymateb i gwestiwn 9 uchod, i helpu i nodi darparwyr i drafod â hwy os am gydweithio. |
| 25 | A fydd y cyllid ar gael i ymgeisio amdano bob blwyddyn rhwng 2025-2028? Neu a yw dyddiad cau mis Hydref 2024 i wneud cais am dair blynedd lawn o gyllid, heb unrhyw geisiadau newydd yn bosibl o fewn y tair blynedd nesaf? | Bydd grantiau llwyddiannus yn cael eu dyfarnu am gyfnod o 3 blynedd o 1 Ebrill 2025. Cyfeiriwch at baragraffau 9 – 13. |
| 26 | Rydym yn canolbwyntio'n bennaf ar faes penodol ac yn gweithio gyda nifer o asiantaethau a phartneriaid yn y Sir bob dydd i sicrhau bod negeseuon a chyngor yn gyson ac yn glir. Mae gennym rai awgrymiadau ar sut y gellid ymestyn hyn i awdurdodau cyfagos a byddem yn croesawu sgwrs gyda chi. | Bydd angen i geisiadau fodloni'r holl feini prawf yn y ddogfen ganllaw i fod yn gymwys i wneud cais.<br><br>Ni all swyddogion Llywodraeth Cymru drafod ymhellach gydag unrhyw gynigwyr posibl tra bod y cynllun grant yn 'fyw'. |